NEWPORT CITY COUNCIL

Statutory Notice – School Standards and Organisation (Wales) Act 2013

James Harris, Chief Education Officer
Newport City Council
Civic Centre
Newport
NP20 4UR

Andrew Mitchell, Chair of the Governing Body
Malpas Church in Wales Junior School
Yewberry Close
Newport
NP20 6WJ

Notice is given in accordance with sections 42 and 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code that Newport City Council ("the Council") and the Governing Body of Malpas Church in Wales Junior School ("the Governing Body"), having consulted such persons as required, proposes the following:

- The Governing Body to alter Malpas Church in Wales Junior School, Yewberry Close Newport NP20 6WJ, by changing the age range from 7-11 to 4-11.

- The Council to discontinue Malpas Church in Wales Infant School, Yewberry Close, Newport NP20 6WJ. The school is currently maintained by Newport City Council and is a voluntary controlled Church in Wales school.

The Council and the Governing Body of Malpas Church in Wales Junior School undertook a period of joint consultation before deciding to publish these proposals. A joint consultation report, containing a summary of the issues raised by consultees and the proposer's response and the view of Estyn is available on the Newport City Council website at www.newport.gov.uk/schoolreorg

The Governing Body of Malpas Church in Wales Junior School is proposing to extend the age range of Malpas Church in Wales Junior School from 7-11 to 4-11. This will enable the establishment of a new single all-through English-medium voluntary controlled Church in Wales Primary School to accommodate children aged between 4 and 11 years from 1st September 2017. The new primary school will have a published admission number of 54 and capacity for 378 pupils in total. All pupils on roll at the Infant School as at midnight on 31st August 2017 will transfer to the new Primary School when it opens on 1st September 2017.

The Governing Body proposes to implement the proposal to alter Malpas Church in Wales Junior School on 1st September 2017. As a result, the Council proposes to implement the proposal to discontinue Malpas Church in Wales Infant School at midnight on 31st August 2017.

The Council has a Home to School Transport policy and provides free transport to eligible pupils of statutory school age. This provision will not be affected by this proposal. Further information in relation to this policy is available on the Council website.

Objection Period

Within a period of 28 days after the date of the publication of these proposals, that is to say by 27 March 2017, any persons may object in writing or by email to the proposals.

Objections to the Council's proposal should be sent to Newport City Council, for the attention of the Education Service Development Manager, Room 425w, Civic Centre, Newport, NP20 4UR. Objections by email should be sent to school.reorg@newport.gov.uk

Objections to the Governing Body's proposal should be sent to Malpas Church in Wales Junior School, for the attention of the Chair of the Governing Body, Malpas Church in Wales Junior School Yewberry Close, Newport NP20 6WJ. Objections by email should be sent to malpaschurch.juniors@newport.gov.uk

The Council, together with the Governing Body of Malpas Church in Wales Junior School, will publish a summary of any such objections made (and not withdrawn in writing) within the objection period, together with their observations thereon, at the time of notification to stakeholders of the determination of the proposal.

Dated: 27 February 2017

Gareth Price, Head of Law & Regulation
For Newport City Council, Civic Centre, Newport, NP20 4UR

CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Hysbysiad Statudol – Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

James Harris, Prif Swyddog Addysg
Cyngor Dinas Casnewydd
Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd
NP20 4UR

Andrew Mitchell, Cadeirydd y Corff Llywodraethu
Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru, Malpas
Yewberry Close
Casnewydd
NP20 6WJ

Hysbysir yn unol ag adrannau 42 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Dinas Casnewydd ("y Cyngor") a Chorff Llywodraethu Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru, Malpas ("y Corff Llywodraethu"), ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n ofynnol, yn cynnig y canlynol:

- Bod y Corff Llywodraethu yn gwneud newid i Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru, Malpas, Yewberry Close, Casnewydd NP20 6WJ, drwy newid yr ystod oedran o 7-11 i 4-11.

- Bod y Cyngor yn cau Ysgol Fabanod yr Eglwys yng Nghymru, Malpas, Yewberry Close, Casnewydd NP20 6WJ. Caiff yr ysgol ei chynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd ar hyn o bryd ac mae'n ysgol yr Eglwys yng Nghymru a reolir yn wirfoddol.

Cynhaliodd y Cyngor a Chorff Llywodraethu Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru, Malpas gyfnod ymgynghori ar y cyd cyn penderfynu cyhoeddi'r cynigion hyn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y cyd, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk/schoolreorg

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru, Malpas yn cynnig ymestyn ystod oedran Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru, Malpas o 7-11 i 4-11. Bydd hyn yn galluogi sefydlu un Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru cyfrwng Saesneg a reolir yn wirfoddol ar gyfer plant rhwng 4 ac 11 oed o 1 Medi 2017. Nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol gynradd newydd fydd 54, a bydd lle i gyfanswm o 378 o ddisgyblion. Caiff pob disgybl ar gofrestr yr Ysgol Fabanod am ganol nos ar 31 Awst 2017 ei drosglwyddo i'r Ysgol Gynradd newydd pan fydd yn agor ar 1 Medi 2017.

Mae'r Corff Llywodraethu yn cynnig y dylid gweithredu'r newid i Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru, Malpas ar 1 Medi 2017. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn cynnig y dylid gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Fabanod yr Eglwys yng Nghymru, Malpas am ganol nos ar 31 Awst 2017.

Mae gan y Cyngor bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ac mae'n darparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion cymwys o oedran ysgol statudol. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y ddarpariaeth honno. Ceir rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r polisi hwn ar wefan y Cyngor.

Cyfnod Gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 27 Mawrth 2017, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion yn ysgrifenedig neu drwy e-bost.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i gynnig y Cyngor i Gyngor Dinas Casnewydd, at sylw'r Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth Addysg, Ystafell 425w, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR. Dylid anfon gwrthwynebiadau a gyflwynir drwy neges e-bost i school.reorg@newport.gov.uk

Dylid anfon gwrthwynebiadau i gynnig y Corff Llywodraethu i Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru, Malpas, at sylw Cadeirydd y Corff Llywodraethu, Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru, Malpas, Yewberry Close, Casnewydd NP20 6WJ. Dylid anfon gwrthwynebiadau a gyflwynir drwy neges e-bost i malpaschurch.juniors@newport.gov.uk

Bydd y Cyngor, ynghyd â Chorff Llywodraethu Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru, Malpas, yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw gyfryw wrthwynebiadau a wneir (ac na chânt eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd a'u barn arnynt, ar yr adeg yr hysbysir rhanddeiliaid o'r penderfyniad ar y cynnig.

Dyddiedig: 27 Chwefror 2017

Gareth Price, Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
Ar ran Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR